Hawdd ei Ddeall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o gyfarfod rhif 13 ar 18 Mehefin 2025.**
**Roedd y cyfarfod yn Nhŷ Hywel ym Mae Caerdydd ac ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sam Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Mike Hedges AS** – Aelod o'r Senedd
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Sion Jones** – Mencap Cymru
- **Mark Jones** – Gig Buddies Cymru
- **Richie Horrigan** – Gig Buddies Cymru
- **Kate Young** – Fforwm Cymru Gyfan
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Beth Rees** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Eliza Wright** – Mencap Cymru
- **Angela Owen-Griffiths** – Senedd

- **Gwen Anslow** – Fforwm Cymru Gyfan
- **Michael Beynon** – Mencap Cymru
- **Thea Brain** – Fforwm Gofal Cymru
- **Daniel Bray** – Your Voice Advocacy
- **Grace Coppock** – Fforwm Cymru Gyfan
- **Steven Crane-Jenkins** – BASW Cymru
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Samantha Dodd** – Cartref Ni
- **Gillian Eastwood** – Cartref Ni
- **Carl Edwards** – ITV Cymru Wales
- **Adam Elameer**
- **Amanda Everson** – CWVYS
- **Angharad Griffiths** – Senedd Cymru
- **Jonathan Griffiths** – Ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru
- **Julia Hawkins** – Hft
- **Lara Homan** – Gweithrediaeth GIG Cymru
- **Nadine Honeybone**
- **Geraint Jones-Griffiths** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Wayne Lewis** – V21
- **Elin Llŷr** – ITV Cymru Wales
- **Marg McNeill** – SEE Around Britain
- **Lucy O'Leary** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Colette O'Sullivan** – SAM
- **Louise Peck** – Your Voice Advocacy
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Jackie Prosser** – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
- **Ana Reis-Rogers** – PAVS
- **Rachel Richards** – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Simon Rose –** Anabledd Dysgu Cymru
- **Adele Rose-Morgan** – Rhiant
- **Sarah Sidman-Jones** – Cyngor Bro Morganwg
- **Darren Smith**
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru

- **Foo Seng Thean** – Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru
- **Mel Thomas** – Cymdeithas Dai Cymoedd i'r Arfordir
- **Eloise Tong** – Theatr Hijinx
- **Oliver Townsend** – Mirus
- **Karen Warner** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Sarah Washbrook**
- **Sheena Williams** – BIP Betsi Cadwaladr
- **Victoria Waller** – Gig Buddies Cymru
- **Andrew Jenkins** – Senedd



## Pobl a ddywedodd nad oedden nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- **Janis Griffiths** – Rhiant
- **Davina Carey-Evans** – Cronfa'r Teulu
- **Julian Hallett** – Cymdeithas Syndrom Down

# Gwybodaeth am y ddogfen yma




This is an easy read version. The words and their meaning are easy to read and understand.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las drwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ar gyfer pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch chi weld beth yw ystyr yr holl eiriau glas ar **dudalen 13.**

# 1. Croeso a chyflwyniadau



Mae **Sioned Williams** yn Aelod o'r Senedd a hi yw **Cadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Croesawodd Sioned bawb i'r cyfarfod.



Croesawodd Sioned Sara Pickard yn ôl. Sara yw **cyd-ysgrifennydd** y grŵp.

Y **cyd-ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

**Cyd-ysgrifenyddion** yw pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.



Dywedodd Sioned ei bod hi'n Wythnos Anabledd Dysgu.

Cyflwynodd hi'r siaradwyr:

- Richie Horrigan o **Gig Buddies Cymru**.
- Elin Llŷr a Carl Edwards o **ITV Cymru**.
- Michael Beynon o **Mencap Cymru**.

# 2. Cyflwyniad gan Richie Horrigan o Gig Buddies Cymru




Dywedodd Richie fod Gig Buddies Cymru yn bwysig iawn iddo. Mae'n ei helpu i fynd i gigs cerddoriaeth, aros allan yn hwyr a gwneud ffrindiau newydd.



Mae mynd i gigs yn helpu Richie i deimlo'n hapus ac yn llai pryderus.
Dangosodd fideo sut beth yw Gig Buddies gyda llawer o luniau o Richie yn mwynhau nosweithiau allan.



Mae bod yn **llysgennad** i Gig Buddies yn gwneud iddo deimlo'n falch ac yn hapus. Weithiau mae hefyd yn gwneud iddo deimlo'n emosiynol.

**Llysgennad** yw rhywun sy'n hyrwyddo rhywbeth. Gallai hyn fod yn dweud wrth bobl am wasanaeth neu sefydliad.



Mae Richie hefyd:
- Yn gweithio gydag Innovate Trust a First Choice Housing. Mae'n gofyn i bobl beth yw eu barn am ble maen nhw'n byw.
- Yn helpu i redeg grŵp am berthnasoedd a chanlyn ar-lein. Mae'r grŵp hwn yn helpu pobl i aros yn ddiogel ar-lein.




Mae Richie yn cynllunio noson gerddoriaeth o'r enw **RichieFest** ar 19 Gorffennaf i ddathlu ei ben-blwydd. Bydd y digwyddiad yn codi arian ar gyfer Gig Buddies.




Diolchodd Sioned i Richie am ei sgwrs ac am rannu ei stori.

## 3. Cyflwyniad gan Elin Llŷr a Carl Edwards o ITV Cymru



Siaradodd Elin a Carl am eu gwaith gyda Mencap Cymru.




Siaradon nhw am Sara Pickard o Mencap yn gweithio gydag ITV Cymru. Helpodd Sara i wneud cysylltiadau â'r cyfryngau a chyd-gyflwynodd sioe o'r enw Sharp End.



Dangoson nhw fideo am sut beth yw ymweld ag ITV Cymru a gweithio yno.



Siaradon nhw am ddiwrnodau hyfforddi yn y cyfryngau i bobl ag anabledd dysgu.



Fe wnaethon nhw hefyd egluro bod ITV Cymru eisiau cynnwys mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol.
Maen nhw’n cynnal panel amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn ar-lein ac yn eu swyddfeydd.



Mae pobl o elusennau yn cwrdd â'r newyddiadurwyr. Maen nhw'n gwylio'r newyddion gyda'r nos ac yn rhoi adborth



Dywedon nhw, os yw elusennau eisiau cysylltu â chyfryngau’r teledu, y dylen nhw rannu lluniau neu fideos gan fod hyn yn helpu i adrodd eich stori'n well.



Diolchodd Sioned i Elin a Carl. Dywedodd fod yn rhaid i'r cyfryngau ddangos pobl ag anabledd dysgu mewn ffordd gadarnhaol.

# 4. Cyflwyniad gan Michael Beynon o Mencap Cymru



Rhoddodd Michael ei sgwrs gyda'i fam. Mae wedi gwneud llawer o bethau, gan gynnwys:

- Dechrau ei fusnes ei hun o'r enw **Coalpit Welsh Cakes.**
- Bod yn athletwr ac yn eiriolwr.
- Torri recordiau.

Dywedodd Michael fod pobl weithiau'n meddwl na all wneud pethau heb ofyn iddo yn gyntaf.



Mae Michael yn rhan o'r grŵp **Mencap Myth Busters**. Mae gan y grŵp hwn 18 o bobl ag anabledd dysgu. Maen nhw'n rhannu sut beth yw bywyd mewn gwirionedd iddyn nhw.



Dywedodd Michael fod rhaid gweld pobl ag anabledd dysgu yn y cyfryngau. Mae hyn yn eu helpu i fod yn fodelau rôl. Mae'n helpu i newid sut mae pobl yn meddwl am anabledd dysgu.



Gorffennodd drwy ddweud bod **gwelededd** yn arwain at gynhwysiant ac mae cynhwysiant yn arwain at newid go iawn.

Ystyr **gwelededd** yw cael eich gweld, eich cydnabod a'ch deall.

# 5. Cwestiynau a syniadau



Gofynnodd Wayne Crocker o Mencap Cymru i fam Michael pa gyngor y byddai hi'n ei roi i rieni eraill pobl ag anabledd dysgu.
Dywedodd mam Michael y byddai hi'n dweud wrth rieni eraill i adael i'w plant roi cynnig ar lawer o bethau gwahanol. Helpwch nhw i ddod o hyd i rywbeth maen nhw wrth eu bodd yn ei wneud.



Mae angen i ysgolion a cholegau roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu roi cynnig ar bethau gwahanol.



Gofynnodd Amanda Everson o CWVYS beth allai gwasanaethau ei wneud i fod yn fwy hygyrch i bobl ag anabledd dysgu.

Dywedodd Michael y dylen nhw fod yn groesawgar ac yn gyfeillgar.



Dywedodd Wayne y gallwn ddysgu gan wledydd eraill am wneud gwasanaethau ieuenctid yn fwy cynhwysol.



Gofynnodd Mark Isherwood AS i Michael pa mor bwysig yw hi i bobl ag anableddau dysgu wneud ymarfer corff a chadw'n heini.

Dywedodd Michael fod ymarfer corff yn bwysig iawn yn ei fywyd. Mae hefyd yn ysgrifennu llyfr am fwyta'n iach.




Gofynnodd Sioned i Richie beth ellid ei wneud i wneud lleoedd yn fwy cynhwysol i bobl ag anabledd dysgu.

Dywedodd Richie fod gormod o leoedd yn gwrthod gadael i bobl dalu ag arian parod. Nid yw hyn yn deg i lawer o bobl ag anabledd dysgu na allant dalu â cherdyn. Mae'n atal pobl rhag gallu mynd allan a mwynhau eu hunain.



Mae Gig Buddies yn cefnogi'r ymgyrch cymdeithas heb arian parod i gael mwy o leoedd fel siopau, bariau a bwytai i dderbyn arian parod.



Cyn iddo ymuno â Gig Buddies, roedd rhaid i Richie fod adref erbyn 11pm. Nawr gall aros allan yn hwyr gyda'i gyfaill gigiau.

# 6. Unrhyw fater arall




Gofynnodd Sioned a oedd unrhyw beth yr hoffai pobl siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.



Dywedodd Adele Rose-Morgan yr hoffai siarad am sut i wneud ysgolion a cholegau yn fwy cynhwysol.



Hoffai Joe Powell o Bobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i'r grŵp siarad am eiriolaeth.



Dywedodd Louise Peck o Your Voice Advocacy fod llawer o bobl yn bryderus iawn am gynlluniau Llywodraeth y DU i dorri budd-daliadau.



Dywedodd Sion Jones o Mencap Cymru eu bod nhw'n cynnal arolwg i ddarganfod sut beth yw bywyd i bobl ag anabledd dysgu sy'n byw yng Nghymru.



Gallwch lenwi'r arolwg hawdd ei ddarllen yma: [https://wales.mencap.org.uk/WalesSurvey25](https://wales.mencap.org.uk/WalesSurvey25).

Hoffai Sion gyflwyno canfyddiadau'r arolwg i'r grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol.

# 7. Y cyfarfod nesaf




Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar-lein **ddydd Mercher 24 Medi 2025** rhwng 12.15-1.15pm.

Dylai unrhyw un sydd â syniadau ar gyfer y cyfarfod anfon e-bost at
Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk neu
Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.




Diolchodd Sioned i bawb am ddod i'r cyfarfod a rhannu eu syniadau.




Gallwch ddod o hyd i fersiynau hawdd ei ddeall o holl agendâu'r grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma: [www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/](https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/)

# Geiriau anodd

## Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## Gwelededd

Ystyr gwelededd yw cael eich gweld, eich cydnabod a'ch deall.

## Llysgennad

Llysgennad yw rhywun sy'n hyrwyddo rhywbeth. Gallai hyn fod yn dweud wrth bobl am wasanaeth neu sefydliad.

## Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifenydd

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Cyd-ysgrifenyddion yw pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.